

**CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD**  
**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FERCHER**  
**5 CHWEFROR 2014, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh**

<b>YN BRESENNOL:</b>		
Cynghorwyr R Edwards, R Davies, A Holmes, G Roberts, D I Roberts, N Jones, A Mummery (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)		
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>		
Cyng A Evans, M Jones (Cyngor Sir), J Evans (Cyngor Sir)		
<b>1</b>	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng R Edwards. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb, yn cynnwys un aelod newydd Cyng Rhys Davies	
<b>2</b>	<b>DATGAN DIDDORDEB</b> – Dim	
<b>3</b>	<b>DERBYN COFNODION</b> Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 7 Ionawr 2014. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir Cyng N Jones yn cynnig a Cyng D I Roberts yn eilio gyda un mater ychwanegol: Trafodwyd y Cyngor y Gorchymyn Arbrofol (B5420 Llangefni - Porthaethwy) Cyfyngiad Cyflymdra 40 a 50 myh a nodwyd bod gan y Cyngor 6 mis i gynnig sylwadau	
<b>4</b>	<b>MATERION YN CODI O'R COFNODION</b>	
<b>4.1</b>	<b>Star (llwybr)</b> - Darllenwyd llythyr gan yr Adran Priffyrdd yn cadarnhau na does dim camau pellach wedi digwydd ers i'r adran gael golwg ar y potensial prosiect yn 2011. Ar yr adeg, nid oedd pob tîrfeddianwr ar hyd y ffordd yn fodlon gwerthu tir i'r Cyngor. Er fod rhai perchnogion yn fodlon darparu tir ar ddim cost i'r Cyngor, gallai y gost o adeiladu palmant, symud polion, a darparu wal neu ffens rhwng y palmant a'r tir, fod yn uchel, a buasai yn anhebygol o fod yn llwyddianus o dderbyn grant yn enwedig wrth fod angen prynu tir yn erbyn ewyllus rhai perchnogion. Nid ydyn ar hyn o bryd yn bwriadu bwrw ymlaen gyda'r darpar brosiect yma. Gofynwyd i'r Clerc derbyn copi o'r penderfyniad cynllunio Dol Frait	
<b>4.2</b>	<b>Tir maes chwarae Penmynydd</b> - Penderfynwyd peidio symud ymlaen gyda'r mater yma oherwydd brinder o dir defnyddiol yn yr ardal	
<b>4.3</b>	<b>Gor-yrru Star</b> - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir	
<b>5</b>	<b>Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon</b>	
	<b>Cynllunio</b>	
<b>5.1</b>	41C125B/EIA/RE (Gwybodaeth ychwanegol - Asesiad Impact yr Amgylchedd) Cais llawn ar gyfer codi tri twrbin wynt 800kw - 900kw gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 55m, dimaedr rotor hyd at uchafswm o 52m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 81m, gwelliannau i'r fynedfa presennol i lon A5025, ynghyd a chodi 3 cabinet storio offer ar di r yn Bryn Eryr Uchaf, Porthaethwy Penderfyniad: Mae ceisiadau o'r fath fel hyn ddim i'w wneud â gwyddoniaeth newid yn yr hinsawdd. Maent yn ymwneud â ffermio cymhorthdal. Nid oes unrhyw fanteision i'r gymuned, dim ond i dirfeddianwyr. Mae maint a graddfa'r cais hwn yn llawer rhy uchel.	
	<b>Llofnod</b>	<b>Cadeirydd</b> <b>05.03.14</b>

	<p>Bydd y tyrbinau gwynt yn cael effaith weledol a'r sŵn a fydd yn effeithio ar fywyd gwyllt, bydd yn cael unrhyw le yn y dirwedd wledig, a bydd yn cael ei weld am filltiroedd. Bydd yn cynhyrchu ychydig iawn o ynni. Bydd tyrbinau gwynt o'r maint hwn yn difetha harddwch yr Ynys. Byddant hefyd yn effeithio ar dwristiaeth. Mewn ardaloedd eraill lle mae ceisiadau wedi cael eu cymeradwyo, mae twristiaeth wedi gostwng gan 25%. Twristiaeth yw'r prif ddiwydiant ar yr Ynys. Gall tyrbinau gwynt cyfrannu tuag at broblemau iechyd, yn enwedig i'r rhai sy'n byw yn agos. Byddant yn lleihau gwerth yr eiddo yn yr ardal.</p>
<b>5.2</b>	<p>41C5D Cais llawn i godi sied amaethyddol ar gyfer storfa peiriannau, bwyd a chadw anifeiliaid ynghyd a chreu manege ar dir yn Rhydeilian, Penmynydd - cynlluniau diwygiedig - dim sylwadau</p>
	<b>Pennaeth Gwasanaethau Tai</b>
<b>5.3</b>	<p>Y Gronfa ar gyfer gwella amgylchedd a'r gymuned (gwybodaeth yn unig)</p>
	<b>Prif Weithredwr</b>
<b>5.4</b>	<p><b>Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad</b> - Darllenwyd llythyr gan y Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Ynys Mon (wedi ei gyfeirio at Cyng Meirion Jones, Cyngor Sir) yn dweud bod y Cyngor wedi trefnu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad y blwyddyn diwethaf. Mae'r pwyllgor yn siomedig iawn i nodi nad oedd un aelod o Gyngor Cymuned Penmynydd &amp; Star yn bresennol yn yr hyfforddiant. "Byddwch yn gwybod ei bod o'r pwysigrwydd mwyaf bod cynghorau Cymuned, sydd hefyd yn dod o dan yr un Côt Ymddygiad â chynghorwyr sir ac yn cytuno i lynu wrtho, yn mynychu hyfforddiant er mwyn sicrhau dealltwriaeth ddigonol o'u hymrwymadau; yn arbennig pan ddaw i gydymffurfio gyda datganiadau / cyfrannu mewn materion lle mae ganddynt ddiddordeb personol / rhagfarnol"</p> <p>Yn 2014, bydd y Pwyllgor Safonau yn hytrach yn cynnig hyfforddiant i glercod Cyngor Cymuned / Tref mewn perthynas â rhai meysydd allweddol o'r Côt Ymddygiad. Y bwriad yw canolbwyntio ar barchu ac ystyriaeth ac ar ddiddordebau, gyda'r disgwyl y bydd y clercod wedyn yn rhannu'r hyfforddiant gyda'u haelodau ac y byddant mewn gwell sefyllfa i roi cyngor ynglŷn â disgwyliadau'r Côt mewn cyfarfodydd o'r Cyngor Cymuned.</p>
<b>6</b>	<b>GOHEBIAETH YCHWANEGOL</b>
<b>6.1</b>	<p>Mrs A Owen, cyflymder Penmynydd - Darllenwyd copi o llythyr gan Mrs A Owen, Ty'n Refail, Penmynydd wedi ei gyfeirio at Adran Priffyrdd y Cyngor Sir yn cwyno am y newidiadau yn y cyflymder ym Mhenmynydd (gwybodaeth yn unig). Soniodd cyng Holmes am y bosibilrwydd o cynnal cyfarfod cyhoeddus o mewn y chwe mis i drafod y mater ymhellach. Penderfynwyd y Cyngor hefyd i gynnig gwahoddiad i'r Adran Priffyrdd i cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned i drafod y mater ymhellach. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir i ddweud bod y Cyngor Cymuned yn siomedig iawn gyda'r newidiadau ac i gofyn be fydd y system monitro yn ystod y chwe mis (Gorchymyn Arbrol). Hefyd, paham nid yw y Cyngor Cymuned wedi derbyn gwybodaeth am y gorchymyn?</p>
	<p><b>Llofnod</b> <b>Cadeirydd</b> <b>05.03.14</b></p>

<b>6.2</b>	Un Llais Cymru - Adeilad Niwclear Trawsfynydd - darllenwyd llythyr gan Cyngorydd J Isgoed Williams, Cyngor Cymuned, Trawsfynydd, sydd yn aelod o'r Grwp Rhandeiliaid Magnox, Safle Trawsfynydd. Mae'r llythyr yn gofyn i bwyllgorau (Un Llais Cymru) ardal Meirionnydd, Arfon / Dwyfor ac Ynys Môn gefngi'r cynnig fod llythyr yn cael ei anfon ar ran y tri phwyllgor yn ategu'r cais a wneir yn y llythyr gwreiddiol i beidio a dod a'r gwaith dad-gomisiynu i ben am gyfnod dros dro o 5 mlynedd ar safle Trawsfynydd. Penderfynwyd cefnogi.
<b>7</b>	<b>MATERION ARIANNOL</b>
<b>7.1</b>	Precept 2014/2015 - penderfynwyd codi y precept am y flwyddyn 2014/15 i £3300
<b>8</b>	<b>MATERION ERAILL</b>
<b>8.1</b>	Gofynwyd i'r Clerc gwneud ymholiadau am grantiau a cael prisiau am beinciau ar gyfer Penmynydd
<b>8.2</b>	Blodeuo Mon - Ganmlwyddiant Cychwyn y Rhyfel Byd. Mae Cyngor Ynys Mon wedi penderfynu anrhydeddu a choffau'r digwyddiad hwn trwy "Ymgyrch Blodau'r Dyfodol" dywedodd Cyng Mummery bod y cloc/gofeb yn Llanfairpwll yn perthyn i Cyngorau Llanfairpwll a Penmynydd. Mae Cyngor Llanfairpwll wedi penderfynu hadau planhigion.
	<b>Llofnod</b> <b>Cadeirydd</b> <b>05.03.14</b>